# DAVIES, EDWIN (1859 - 1919), golygydd a chyhoeddwr

**Enw:** Edwin Davies
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1919
**Priod:** Hannah Eleanor Davies (née Blissett)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd a chyhoeddwr
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Williams

Ganwyd yn Old Parr's Cottage, ger y Trallwng, Mawrth 1859. Symudodd ei deulu i Aberhonddu pan nad oedd efe ond plentyn, ac fe'i prentisiwyd ef am saith mlynedd i'r gwaith argraffu a chyhoeddi. Ysgrifennai'n gyson i'r Wasg leol, yn enwedig ar bwnc dirwest a bleidiai yn selog. Daeth yn oruchwyliwr ar y busnes argraffu lle bu'n brentis, ac yn ddiweddarach daeth hwnnw'n eiddo iddo. Bu'n golygu a chyhoeddi 'r *Brecon and Radnor County Times* am 12 mlynedd. Priododd Hannah Eleanor Blissett (bu farw Chwefror 1929), a bu iddynt saith o feibion a phedair merch. Yn y blynyddoedd diweddaraf arferai enw'i wraig yn ei fusnes - ' Blissett Davies and Co. ' Ei gyfraniad pennaf i lenyddiaeth Cymru oedd ailgyhoeddi llyfrau ar hanes siroedd Cymru a oedd allan o brint. Yn aml ychwanegai atynt. Ymhlith y rhain yr oedd dau argraffiad o *History of the County of Brecknock*, Theophilus Jones (ailbrintio dwy gyfrol yn un, 1898, ac 'argraffiad Glanusk,' pedair cyfrol, 1909-30; golygwyd a chyhoeddwyd cyfrolau 1-3 gan Davies); *The History and Antiquities of the County of Cardigan*, Sir Samuel Rush Meyrick, 1907; *A Historical Tour through Pembrokeshire*, Richard Fenton, 1903; *An Historical Tour of Monmouthshire*, archdeacon William Coxe, 1904. Yn 1905, golygodd a chyhoeddodd *A General History of the County of Radnor*, wedi'i gasglu ynghyd o nodiadau yn llawysgrif Jonathan Williams a ffynonellau eraill (cyhoeddwyd argraffiad lawer llai ohono gan R. Mason, Dinbych-y-pysgod, yn 1859). Gweithiau eraill o bwys a gyhoeddwyd gan Davies oedd: *The Birds of Breconshire*, E. C. Phillips, 1899; *Theophilus Jones, F.S.A., historian; his life, letters, and literary remains* (gol. E.D., 1905); a *Parochial Registers and Records*, 1906, wedi'u casglu gan E.D. Bu farw Edwin Davies, yn ei gartref, Dinas Lodge, Aberhonddu, Chwefror 1919, a chladdwyd ef ym mynwent Aberhonddu. Bu Davies yn ddiwyd yn crynhoi deunydd hanes siroedd. Gwnaeth gasgliad helaeth o ddogfennau a chofnodion a sicrhau eu cadw ar gyfer y dyfodol. Oherwydd diffyg hyfforddiant mewn techneg hynafiaethol a hanesyddol ni wnaeth y gorau o'r deunydd a oedd ganddo, ond y mae pawb sy'n ymddiddori yn hanes siroedd, yn enwedig Brycheiniog a Maesyfed, yn ddyledus iddo am fod cymaint o wybodaeth amhrisiadwy wedi ei ddiogelu.

## Awdur

**William Williams**, (1885 - 1950)

## Ffynonellau

Ffeiliau y *Western Mail* a'r *Brecon & Radnor County Times*

catalogiau Ll.G.C. a *Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

gwybodaeth gan G. Blissett Davies, mab Edwin Davies

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732982

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu